



## UMPA

### Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

3ydd Hydref 2014

### Ystafell Bwyllgor

---

#### Presennol:

Jacob Dafydd Ellis (JDE) – Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr  
Miriam Williams (MW) – Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr  
Will Atkinson (WA) – Swyddog Cymorth i Fyfyrrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr  
Grace Burton (GB) – Swyddog Addysg Myfyrrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr  
Harriet O'Shea (HO) – Swyddog Gweithgareddau Myfyrrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr  
Stephen Meachem (SM) – Ymddiriedolwr Allanol UMPA  
John Glasby (JG) – Prif Weithredwr UMPA  
Andrew Morwood (AM) – Rheolwr Gwasanaethau'r Aelodaeth UMPA  
Catrin Hopkins (CH) – Swyddog Cyllid UMPA

#### Yn gwasanaethu:

Anmarie Evans – Clerc i Fwrdd Ymddiriedolwyr UMPA

Croesawodd JDE bawb i'r cyfarfod, a manteisiodd ar y cyfle i atgoffa pawb bod angen iddynt gydymffurfio â holl bolisiau cyfredol UMPA, ac os caiff y rhain eu torri ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod, mae'n bosib y byddai gofyn iddynt i adael.

Hefyd gofynnodd JDE y dylid cyfeirio unrhyw gais am newidiadau i'r Eitemau ar yr Agenda drwyddo ef a'u copio i Annemarie Evans.

#### 1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Estelle Hart – Ymddiriedolwr Allanol UMPA  
Christopher Lloyd-Jones – Ymddiriedolwr Ôl-raddedig UMPA

#### 2. Datganiadau o Fuddiannau

EH – Ymunodd â Phrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant fel aelod staff  
SM - *Law Tribe*, cwmni cyfreithwyr  
JDE – Swyddog Iaith Gymraeg UCM Cymru, Aelod o'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol, Dyfarnwr ag Undeb Rygbi Cymru.  
Llywydd Cymdeithas Myfyrrwyr Celtaidd Iwerddon a Phrydain, Aberystwyth,  
Aelod o Gyngor y Brifysgol, Cadeirydd Gweithgor Gwyl Ieuencid Cymru  
MW – Aelod o Bwyllgor Iaith Gymraeg UCM Cymru, Aelod o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg,  
Pwyllgor Gorymdaith Gwyl Dewi Aberystwyth, Aelod o Bwyllgor Eisteddfod  
Aberystwyth  
Aelod o'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol  
WA - Partner mewn Polisi a Newid ar gyfer Mind Cymru

Datganiadau pellach i'w cyflwyno erbyn diwedd heddiw (03/10/14)

#### Gweithredu - GB/HO

#### 3. Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod a gynhaliwyd I<sup>af</sup> Awst 2014

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar I<sup>af</sup> Awst 2014 fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

**Cynigiwyd: GB**

## Eiliwyd: HO

### 4. Materion yn Codi

Mae unrhyw faterion sydd i'w trafod wedi cael eu cynnwys yn yr eitemau ar yr agenda.

### 5. Adroddiad gan Dan Francis/UCM

Darparodd Dan Francis o UCM adroddiad yn dilyn yr hyn a ganfu o gyfarfod diwethaf yr Ymddiriedolwyr. Cyfeiriodd JG yn benodol at y canlynol:

- i. *'Hefyd nodwyd gan yr ymddiriedolwyr fod angen datblygiad pellach ar y cynlluniau gweithredol a strategol er mwyn iddynt gydweithio â'i gilydd, ond hefyd er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau cyfredol y swyddogion yn well. O gofio fod Undebau Myfyrwyr o Safon yn nodi... "dylai fod gan aelodau'r Undeb ymwybyddiaeth gref o'i gynlluniau ac y gallant gysylltu'r cynllun â'u hanghenion eu hunain" - byddai'n ddoeth troi unwaith eto at y blaenoriaethau ac amcanion a osodwyd allan yn y ddogfen hon er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i aelodaeth yr undeb.'*

Cynhaliwyd cyfarfod â'r Swyddogion i adolygu'r cynllun strategol cyfredol. Bydd JG yn newid y Cynllun ar sail y drafodaeth ac yn ei anfon i'r Swyddogion am gymeradwyaeth cyn ei ddsbarthu ymysg y Bwrdd cyfan.

#### Gweithredu - JG

- ii. *'Roedd gan y Bwrdd duedd i flaenoriaethu rhai materion gweithredol dros drafodaethau strategol ..... roedd yn ymddangos fel pe bai ymddiriedolwyr yn treulio eu hamser yn craffu ar uwch aelodau staff. Arweiniodd hyn at drafodaethau gweithredol ynghylch perfformiad a phrosesau staff unigol .. materion y byddai'n well ymdrin â nhw tu allan i 'stafell y bwrdd..... lle caiff staff y cyfle i weithredu eu rôl ac y gall ymddiriedolwyr ganolbwyntio ar syniadau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.'*

Gwahoddir staff i gyflwyno diweddariadau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, lle bydd gan Ymddiriedolwyr y cyfle i holi cwestiynau'n uniongyrchol iddynt ynghylch eu meysydd arbenigol. Serch hynny, dylech nodi y creffir ar berfformiad staff drwy Gynllun Gwerthuso Staff 2013, a dylid parhau i wneud hynny er mwy osgoi tanseilio rheolaeth linell ac er mwyn rhoi grym i staff weithredu eu swyddogaethau.

- iii. *'Ar hyn o bryd, serch hynny, ceir teimlad fod hon yn farn na rennir gan ymddiriedolwyr, sydd i gyd â gwahanol farn am ddiben a chyfeiriad y mudiad.'*

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am osod diben a chyfeiriad yr Undeb:- fel y nodir ym mhwynt I. Bydd JG yn trefnu trafodaeth lawn o'r Bwrdd, ynghyd ag adolygu amcan, gweledigaeth a gwerthoedd y Mudiad, yn dilyn cyfarfod â'r swyddogion. (bydd y drafodaeth hon yn seiliedig ar y ddogfen arfaethedig ar gyfer newidiadau i'r Cynllun Strategol)

Eglurodd JDE ei fod wedi siarad â Dan Francis yn dilyn ei adroddiad; roedd eu trafodaeth yn seiliedig ar yr angen i bob aelod ddechrau meddwl fel Bwrdd, yn hytrach na defnyddio'r cyfarfod hwn fel cyfle i fynegi teimladau negyddol ynghylch y ffordd y caiff y mudiad ei redeg. Dylai'r Bwrdd benderfynu sut i ymdrin ag unrhyw fater ac wedyn symud ymlaen.

#### Nodwyd

### 6. Adolygiad Cofrestr Risg

Rhoddodd CH drosolwg o'r newidiadau a wnaed i'r Gofrestr Risg ac esboniodd fod graddfa risg uwch wedi cael ei phennu i'r ochr fasnachol oherwydd y gostyngiad mewn niferoedd myfyrwyr ac i Adnoddau Dynol o ganlyniad i'r arolwg staff.

Er mwyn lleihau risg o'r fath, mae'r gyllideb wedi cael ei hail-ddarogan a'i chyflwyno i'r Bwrdd. Mae cyfres o fesurau i fynd i'r afael ag anfodlonrwydd staff wedi dechrau, gan gynnwys diwrnod adeiladu tîm y staff, a arweiniodd at adborth cadarnhaol.

Daeth yn amlwg yn ystod y drafodaeth nad oedd y Swyddogion Ymddiriedolwr erioed wedi gweld y Gofrestr Risg yn ei chyfanrwydd. Bydd CH yn dosbarthu'r ddogfen ymysg y Swyddogion.

### **Gweithredu - CH**

#### **7. Adroddiad Ariannol**

Trafododd CH y cyfrifon a gyflwynwyd yn flaenorol ar gyfer Awst 2014. Mae gwahanol ffactorau wedi cyfrannau at y bwlch ariannol, gan gynnwys oedi mewn derbyn anfonebau ar gyfer casglu gwastraff gan SITA o 2013/14, costau cyfieithu heb gael eu cynnwys yn y gyllideb a llai o logi masnachol dros fisoedd yr haf. Nododd JG, oherwydd y trosiant cymarol isel yn ystod yr haf, y daw'r darlun o sut rydym yn perfformio'n ariannol yn fwy eglur o Fedi ymlaen, unwaith y bydd y myfyrwyr yn ôl.

Darparodd CH gyllideb wedi ei hail-ddarogan, gan gymryd i ystyriaeth nifer is o fyfyrwyr yn unol â chais y Bwrdd. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau pellach.

#### **Nodwyd**

Nododd CH fod llythyr o gefnogaeth gan y Brifysgol wedi cael ei anfon at KPMG, a ddylai roi terfyn ar gyfrifon 2011/12.

#### **Nodwyd**

#### **8. Cyflwyniad UMCA**

Rhoddodd MW gyflwyniad ar sut a phan sefydlwyd UMCA. Holodd AM ble oedd UMCA yn gweld eu hunain yn nhermau twf, o bosib yn dod yn Undeb Myfyrwyr annibynnol. Holodd HO os oeddynt yn ystyried sefydlu swydd arall, gan fod llawer o amser MW yn cael ei dreulio ar weinyddiaeth. Nododd JDE y bydd UMPA ac UMCA yn parhau i ddod at ei gilydd ac y bydd trafodaethau'n parhau.

#### **9. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Rhoddodd JG grynodedb byr o'i adroddiad, a gyflwynwyd eisoes. Cyfeiriodd ei adroddiad at lwyddiant Wythnos y Glas, llwyddiant o ran cael y defnydd o ddwy 'stafell ar gampws Llanbadarn, a'r diweddaraf o ran Adnoddau Dynol a strwythurau democrataidd. Rhoddwyd adroddiad ar eitemau eraill fel rhan o'r agenda.

Hysbysodd AM y Pwyllgor fod Strwythur Democrataidd newydd wedi cael ei gymeradwyo yn y CCB. Esboniodd fod angen iddo gael cymeradwyaeth gan Bwyllgor y Brifysgol, y Siarter ac yna'r Senedd cyn y gellir ei weithredu. Y gobaith yw y bydd mewn lle erbyn diwedd Tachwedd.

Esboniodd JDE y bydd gwahanol 'barthau' ar gael ar gyfer grwpiau o fyfyrwyr, lle gallant gwrdd a thrafod materion sy'n berthnasol i'r meysydd hynny. Byddai hyn yn galluogi grwpiau o fyfyrwyr na chânt eu cynrychioli'n gyfartal i anfon polisi ymlaen i'r cyngor, ynghyd â sicrhau cynrychiolaeth ar gyfer grwpiau rhyddhad a meysydd arbenigol.

#### **Nodwyd**

#### **10. Y Diweddaraf ar Arwyddion Perfformiad Allweddol (APA) / Trafodaeth o'r**

##### **Adolygiad Strategol**

Roedd adroddiad ar APA y mudiad wedi cael ei gyflwyno eisoes, a gofynnwyd i'r Bwrdd nodi nad oedd Gwirfoddoli a Chymdeithasau wedi cael eu hychwanegu.

#### **Nodwyd**

Esboniodd y Swyddogion eu bod wedi cynnal diwrnod oddi-ar-y-safle i adolygu a llunio gweledigaeth ar y cyd i gyfateb â chanlyniadau'r Cynllun Strategol. Roedd yr adroddiad hwn wedi cael ei gyflwyno o'r blaen, a nodwyd hyn.

### **Nodwyd**

## **11. Strategaeth Gwasanaethau'r Aelodaeth**

Darparwyd Cynllun Strategol ar gyfer pob adran o fewn Gwasanaethau'r Aelodaeth, fel tasg ehangach i helpu uno'r adran a mynd i'r afael â rhai teimladau a ddeilliodd o'r arolwg staff.

Holodd GB sut y gellid mesur cyrhaeddiad Cyfryngau Myfyrwyr Aber (CMA) fel y nodwyd yn y Strategaeth Etholiadau.

Esboniodd AM mai'r mesur a ddefnyddir fyddai'r nifer o erthyglau a 'sgrifennwyd ar wefan CMA.

### **Nodwyd**

Gofynnodd y Bwrdd i AM basio eu diolch ymlaen i'r staff am eu gwaith ar y strategaethau hyn. Hysbysodd GB y Bwrdd ei bod yn bryderus ynghylch rôl y Cydlynnydd Cynrychiolaeth Academaidd. Esboniodd ei fod yn un o swyddogaethau craidd y mudiad, sydd ar hyn o bryd yn cael ei chyllido gan y Brifysgol, ac o Ionawr 2015, nid ydym yn gwybod o ble y daw'r cyllido (fydd y Brifysgol yn parhau i ddarparu'r cyllid?). Cafwyd sgwrs ynghylch cynnal ymgyrch i gael y rôl yma wedi ei chynnwys yn strwythur yr UM a'i bod yn cael ei chyllido. Cytunwyd y byddai CH yn gweithio allan beth fyddai'r costau ar gyfer y rôl yn ei chyfanwydd.

### **Gweithredu – CH/GB/AM/Sam Reynolds**

## **12. Cynllun Awdurdod wedi ei Ddirprwyo**

Hysbysodd AM y Pwyllgor ynghylch chanlyniadau'r cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Llywodraethu a Chydraddoldeb a gynhaliwyd ynghynt y diwrnod hwnnw. Darparodd y ddogfen wedi ei diweddarau i'w chymeradwyo gan y Bwrdd.

### **Cymeradwywyd**

Cadarnhaodd JDE y byddai disgwyl i aelodau'r Is-Bwyllgor ymddwyn yn gywir, gan gydymffurfio â pholisiau ein mudiad.

## **13. ACF, Boddhad Myfyrwyr a Recriwtio**

Rhoddodd JG drosolwg o'r adroddiad ar yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr a ddsbarthwyd eisoes, ynghyd â'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r ffaith fod y sgôr ar gyfer Cwestiwn 23 wedi cwmpo'n ôl. Nododd JDE nad oedd y canlyniadau o syndod i ni, a'n bod ni eisoes wedi bod yn gweithio'n galed i wella hyn. Teimlodd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fod y mudiad wedi canolbwyntio ar yr agwedd fasnachol er mwyn adfer y sefyllfa ariannol, a hynny o bosib ar draul gwasanaethau myfyrwyr. Cytunwyd hefyd fod yr UM yn gwneud llawer o bethau mae'r Brifysgol yn ceisio cymryd y clod amdanynt - yn y dyfodol mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n marchnata'n well ac yn cael y clod am ein llwyddiannau ein hunain.

Trafododd JG effaith y gostyngiad mewn niferoedd myfyrwyr ac esboniodd fod y gyllideb wedi ei hail-ddarogan yn geidwadol, ac yn seiliedig ar fasnachu cyfredol. Serch hynny, rhaid i ni fod yn barod ar gyfer trafodaethau posib yn y dyfodol ynghylch lleihad yn y grant bloc. Nododd JG, er gwaethaf nifer is o fyfyrwyr, ei bod yn ymddangos fel pe bai yno fwy o fyfyrwyr nag erioed mewn llety a ddarperir gan y brifysgol, oedd o fantais i weithgareddau masnachol yr Undeb. Bydd JDE yn ymchwilio i hyn ac yn rhannu'r ffigurau.

## **Gweithredu - JDE**

### **14. Y Diweddaraf ar Arolwg Ymgysylltiad Staff**

Rhoddodd JG drosolwg o'r ymateb a ddarparodd ar Ymgysylltiad Staff. Cyfeiriodd at yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni eisoes, yn ogystal â'r hyn sydd ar y gweill at y dyfodol. Esboniodd fod staff yn ymddangos fel pe baent yn fwy positif ynghylch y newidiadau hyn.

**Nodwyd**

### **15. Cynllun Recriwtio ar gyfer Ymddiriedolwr Allanol**

Esboniodd JDE ei fod yn dal i aros am yr Archwiliad Sgiliau gan EH, a chynted y bydd yn derbyn hwn y bydd yn llunio cynnig ac yn ei anfon at y Bwrdd.

**Gweithredu - JDE/EH**

### **16. Unrhyw fusnes arall**

**Grwp Llywio Gweithredol** - Trafododd GB a WA y cynnig a gyflwynwyd ganddynt o'r blaen i sefydlu Grwp Llywio Gweithredol a fyddai'n darparu cyfle rheolaidd i Swyddogion roi cyfeiriad i'r Prif Weithredwr, ynghyd â darparu sianel gyfathrebu a fyddai wastad yn bodoli os yw'r Llywydd ar gael neu beidio. Cafwyd trafodaeth fer ynghylch y cynnig hwn, ac estynwyd gwahoddiad i'r Bwrdd bleidleisio arno.

**Cymeradwywyd yn unfrydol**

**Adroddiadau gan Swyddogion** – Cytunwyd na fyddai Adroddiadau gan Swyddogion bellach yn angenrheidiol, gan y byddent yn parhau i fwydo i mewn i'r Cynllun Strategol ac yn adrodd yn pan fo angen gwneud hynny.

**Cymeradwywyd**

**Gweinyddiaeth** – Cynigiodd AE ein bod yn newid i gyfarfodydd di-bapur a cheisio defnyddio mwy ar y taflunydd er mwyn defnyddio llai o bapur. Cytunwyd y byddai ar ffurf electronig yn unig, ar wahan i hawl Ymddiriedolwyr Allanol i wneud cais am gopi papur.

Hefyd cyfeiriodd AE at ddefnyddio system Dropbox a gofynnodd i bawb a fyddai'n cyflwyno adroddiad i sicrhau nad oeddynt yn rhifo eu tudalennau. Caiff ffurflen werthuso ei hanfon allan i fesur effeithiolrwydd y systemau hyn maes o law.

Hysbysodd JDE SM bod pleidlais o ddiffyg hyder wedi cael ei chyflwyno yn ei erbyn, ac y byddai'n derbyn llythyr maes o law, a byddai ganddo 14 diwrnod i ymateb.

**Nodwyd**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Gwener 5<sup>ed</sup> Rhagfyr, 10am, yn 'Stafell y Pwyllgor.**